# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 28 Ebrill 2015**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(260)v5

**1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)**
Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 3.

Gweld y Cwestiynau

**2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)**

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

**3 Datganiad gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus: Diweddariad ar ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyflwyno 500 o Swyddogion Cymorth Cymunedol ychwanegol yng Nghymru - TYNNWYD YN ÔL**

**4 Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Fathodynnau Glas (30 munud)**

**5 Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Diweddariad ar Her Ysgolion Cymru (30 munud)**

**6 Trefn ystyried gwelliannau'r Bil Cynllunio (Cymru) (5 munud)**

**NDM5745 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.36:

Yn cytuno i waredu'r adrannau a'r atodlenni i'r Bil Cynllunio (Cymru) yng Nghyfnod 3 yn y drefn ganlynol:

a) adrannau 2 - 55

b) atodlenni 1 - 7

c) adran 1

d) Teitl Hir

**7 Dadl ar Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2013-2014 (60 munud)**
**NDM5743 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi'r Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2013-2014

Gosodwyd copi o'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Mawrth 2015.

**Dogfen Ategol**
Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2013-2014

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod yr angen i fynd i'r afael â rhwystrau diwylliannol a allai fod yn atal menywod o leiafrifoedd ethnig rhag rhoi gwybod am drais yn y cartref.

**Gwelliant 2 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi â phryder bod nifer yr achosion gwrth-semitig wedi cyrraedd y lefel uchaf erioed yn y DU y llynedd.

**Gwelliant 3 – Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu ffigurau sy'n dangos bod 23.5 y cant o aelodau bwrdd cwmnïau FTSE 100 yn fenywod.

**Gwelliant 4 – Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu adroddiad cynnydd am sut y bydd mesurau i sicrhau mynediad cyfartal at ofal iechyd yn cael eu cyflawni ar gyfer pobl sydd wedi colli eu clyw neu eu golwg.

**Gwelliant 5 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw am astudiaeth d dichonolrwydd annibynnol i sefydlu clinig hunaniaeth o ran rhywedd yng Nghymru.

**Gwelliant 6 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i symud at recriwtio dienw yn y sector cyhoeddus pan fo hynny'n bosibl fel bod pobl yn cael eu barnu ar eu gallu gwirioneddol i wneud swydd.

**Gwelliant 7 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gymryd camau i ymgorffori hyfforddiant

ymwybyddiaeth ar sail rhyw ym mhob hyfforddiant proffesiynol Tystysgrif Addysg i Raddedigion a Meistr mewn Addysg a Gyrfaoedd i fynd i'r afael â stereoteipiau rhyw a helpu i greu amgylcheddau dysgu sy'n ymwybodol o ryw ar draws ysgolion Cymru.

**8 Dadl ar y Rhaglen Ddeddfwriaethol (60 munud)**
**NDM5744 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi Rhaglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru.

Mae manylion Rhaglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru i'w gweld yn:

http://gov.wales/legislation/programme/?skip=1&lang=cy

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ar ôl 'Llywodraeth Cymru', mewnosod:

'ond yn gresynu at y diffyg uchelgais ynddo.'

**Gwelliant 2 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod bod llwyddiant y rhaglen ddeddfwriaethol yn dibynnu ar fecanwaith cyllido cynaliadwy ar gyfer Llywodraeth Cymru.

**Gwelliant 3 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno deddfwriaeth o fewn gweddill tymor y Cynulliad hwn a fydd yn ei gwneud yn ofynnol bod holl staff meithrinfeydd yn cwblhau cwrs cymorth cyntaf pediatrig a gydnabyddir yn swyddogol.

**9 Cyfnod pleidleisio**

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 29 Ebrill 2015

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 23 Ebrill 2015 i'w hateb ar 28 Ebrill 2015

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 3.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

**1. Lynne Neagle (Torfaen):** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch effaith diwygiadau lles ar bobl sy'n byw yng Nghymru? OAQ(4)2235(FM) **TYNNWYD YN ÔL**

**2. Eluned Parrott (Canol De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y drefn gwynion Gweithio i Wella a ddefnyddir mewn byrddau iechyd yng Nghymru? OAQ(4)2228(FM)

**3. Nick Ramsay (Mynwy):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau i wella GIG Cymru? OAQ(4)2230(FM)

**4. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am weithredu'r cynllun bathodyn glas? OAQ(4)2224(FM)

**5. Sandy Mewies (Delyn):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gynyddu'r cyflenwad tai yng Nghymru? OAQ(4)2226(FM)

**6. Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am addysg bellach yn sir Gaerfyrddin? OAQ(4)2231(FM)

**7. John Griffiths (Dwyrain Casnewydd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y system metro ar gyfer trafnidiaeth yn ne Cymru? OAQ(4)2236(FM)

**8. Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am wasanaethau gynaecoleg ac obstetreg yn Ysbyty Glan Clwyd? OAQ(4)2229(FM)

**9. Jenny Rathbone (Canol Caerdydd):** Beth yw strategaeth y Llywodraeth ar gyfer cynhyrchu a defnyddio ynni adnewyddadwy yn lleol? OAQ(4)2237(FM)

**10. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddyfodol Twf Swyddi Cymru? OAQ(4)2233(FM)**W**

**11. Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i wella tryloywder y wybodaeth a ddarperir mewn ymateb i geisiadau rhyddid gwybodaeth? OAQ(4)2225(FM)

**12. Keith Davies (Llanelli):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am effaith costau byw cyfredol ar bobl yng Nghymru? OAQ(4)2239(FM)**W**

**13. Janet Finch-Saunders (Aberconwy):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gymorth iechyd meddwl yng ngogledd Cymru? OAQ(4)2232(FM)

**14. Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella canlyniadau economaidd yng Nghanol De Cymru? OAQ(4)2234(FM)

**15. Peter Black (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisi Llywodraeth Cymru ar gloddio glo brig? OAQ(4)2227(FM)

**Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

**Mae agendâu'r Cyfarfod Llawn yn cael eu cyhoeddi wythnos cyn pob cyfarfod, ac maent i'w gweld ar dudalen y Cyfarfod Llawn**

**Dydd Mawrth 5 Mai 2015 a dydd Mercher 6 Mai 2015**
**Dydd Mawrth 12 Mai 2015 a dydd Mercher 13 Mai 2015**
**Dydd Mawrth 19 Mai 2015 a dydd Mercher 20 Mai 2015**

---

**Dydd Mawrth 5 Mai 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth: Cyflwyno Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) (60 munud)
- Cyflwyno Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) (60 munud)
- Dadl Cyfnod 3 ar y Bil Cynllunio (Cymru) (180 munud)

**Dydd Mercher 6 Mai 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau (45 munud)
- Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer - Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru) (30 munud)

**Dydd Mawrth 12 Mai 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus: Nodi'r Diwrnod Buddugoliaeth yn Ewrop – gweithio gyda a chefnogi ein cymuned Lluoedd Arfog heddiw (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth: Llysgenhadon Cyllid yr UE (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol: Cyflwyno Bil yr Amgylchedd (Cymru) (60 munud)
- Gorchymyn Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2015 (15 munud)
- Dadl: Cynllun Cyflawni ar gyfer Clefyd yr Afu (60 munud)

**Dydd Mercher 13 Mai 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar yr ymchwiliad i sylweddau seicoweithredol newydd (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Dadl Fer – Suzy Davies (Gorllewin De Cymru) (30 munud) – *Gohiriwyd o 29 Ebrill 2015 (30 munud)*

**Dydd Mawrth 19 Mai 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol am y Strategaeth Ddŵr (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi: Deddfwriaeth ynghylch digartrefedd (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau am Werthuso'r Cyfnod Sylfaen: Adroddiad Terfynol (30 munud)
- Gorchymyn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Cychwyn Rhif 9) 2015 – Rheolau Tribiwnlys y Gymraeg 2015 (30 munud)
- Dadl ar Egwyddorion Cyffredinol y Bil Llywodraeth Leol (Cymru) (60 munud)

**Dydd Mercher 20 Mai 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (45 munud)
- Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar yr ymchwiliad i ganlyniadau addysgol plant o gartrefi incwm isel (60 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar helpu pobl ifanc i gael gwaith (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl fer – Keith Davies (Llanelli) (30 munud)